

Polisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol Ysgol Waunfawr.

1. Diffiniad o addysg bersonol a chymdeithasol

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol [ABCh] yn cynnwys popeth yr ymgymera'r ysgol ag ef er mwyn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae hyn yn cynnwys pob profiad a chyfle dysgu a gynlluniwyd sy'n digwydd, nid yn unig o fewn gweithgareddau dosbarth, ond hefyd mewn meysydd eraill o brofiad ysgol.

Bydd agwedd ysgol gyfan tuag at ABCh yn ymgorffori ystod o brofiadau a fydd yn hyrwyddo lles personol a chymdeithasol disgyblion ac yn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad o hunanbarch a chydymdeimlad gydag eraill. Gall cynlluniau ysgol gyfan, megis 'Yr Ysgol Sy'n Hybu Iechyd' a 'Buddsoddi Mewn Pobl' gyfrannu'n uniongyrchol at ABCh y disgyblion drwy eu galluogi i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus wrth iddynt ddatblygu ac aeddfedu fel unigolion. Bydd hyn yn gwella eu dysgu a'u cymhelliant ac yn dylanwadu ar eu perfformiad a'u cyflawniad.

Nid yw ABCh yn ei gyfanrwydd yn un o feysydd gorfodol y CC er bod elfennau ohono'n rhan statudol o'r rhaglenni astudio. Serch hynny, mae'r awdurdod addysg hwn yn annog pob ysgol i gynnwys y maes yn eu rhaglenni astudio. Cynghorir ysgolion i sicrhau bod elfennau addas o ABCh yn cael eu hymgorffori mewn rhaglen strwythuredig a chydlynus.

Mae polisi'r hwn yn seiliedig ar 'Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol' ACCAC.

2. Gofynion statudol

Mae ABCh yn elfen statudol yn y cwricwlwm sylfaenol i ddisgyblion 5 i 16 oed. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw cynllunio a chyflwyno darpariaeth ABCh eang, gytbwys i ddiwallu anghenion penodol yr holl ddysgwyr.

3. Nodau ABCCh yw:

- ❖ datblygu hunan-dyb y dysgwyr a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb personol
- ❖ hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth
- ❖ galluogi dysgwyr i fyw bywydau diogel ac iach
- ❖ paratoi'r dysgwyr ar gyfer y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes
- ❖ galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- ❖ meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- ❖ paratoi'r dysgwyr ar gyfer y sialensiau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebausy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn.

4. Cysylltiadau â datganiadau polisi eraill

Mae polisiâu eraill yn cyfeirio at faterion sy'n gysylltiedig ag ABCCh a dylid darllen y rheiny ar y cyd â'r datganiad polisi hwn ee

- *bwyd a ffitrwydd*
- *addysg rhyw a pherthnasoedd*
- *addysg camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau*
- *y polisi addysg grefyddol*
- *rheoli ymddygiad (gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â bwlio)*
- *amddiffyn plant*
- *cydraddoldeb.*

5. Amcanion cyffredinol

❖ **Paratoi disgyblion i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu**

profiadau dysgu lle gall disgyblion ddatblygu:

-medrau;

-ymchwilio i agweddau, gwerthoedd a nodweddion personol;

- gaffael, gwerthuso a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.
- * Datblygu hunanbarch a chyfrifoldeb personol y disgyblion.
- * Paratoi'r disgyblion ar gyfer sialensiau, dewisiadau, cyfrifoldebau a dysgu gydol oes.
- * Galluogi'r disgyblion i gyfrannu'n adeiladol fel dinasyddion da yn eu cymunedau a datblygu persbectif byd-eang.
- * Cynorthwyo disgyblion i fyw bywydau iach a boddhaus.
- * Meithrin ac annog agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd - yn lleol ac yn fydeang.

6.Amcanion Penodol /Cynnwys ABCh

Mae ABCh yn cynnwys datblygu sgiliau, hybu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol, ac ennill gwybodaeth a dealltwriaeth yn unol â'r fframwaith ABCh.

* Hyrwyddo yn y disgyblion agweddau a'r gwerthoedd personol canlynol:

- hunan-barch;
- parch at eraill ac ystyriaeth o'u hanghenion;
- cyfleoedd cyfartal a derbyn pobl eraill beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd;
- consyrn dros degwch a chyfiawnder;
- annibyniaeth meddwl;
- cyfrifoldeb;
- parodrwydd i gydweithio;
- sensitifrwydd at yr amgylchedd;
- ymchwil am y gwir.

* Datblygu medrau personol a chymdeithasol y disgyblion ac yn arbennig y medrau:

- cyfathrebu, gan gynnwys y gallu i wrando;
- rhyngpersonol, ac yn enwedig y gallu i gydweithio;
- mewn-personol, ac yn enwedig y gallu i ymdawelu a myfyrio;
- datrys problemau a gwneud penderfyniadau;
- astudio, ac yn enwedig y gallu i osod targedau personol;
- ymarferol, er enghraifft, cymorth cyntaf.

❖ Datblygu cnewyllyn o wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r disgyblion ei ddeall a'i werthuso er mwyn teimlo'n gymwys i fynd i'r afael â materion bywyd. Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn cynnwys agwedd:

- gymdeithasol;
- gymunedol;
- gorfforol;
- rhywiol;
- emosiynol;
- ysbrydol;
- moesol;
- galwedigaethol;
- dysgu;
- amgylcheddol.

❖ Sicrhau bod ABCh y disgyblion yn digwydd mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau, ac yn cynnwys ystod o brofiadau. Gallai'r cyd-destunau a'r profiadau

gynnwys: -amser cylch;

-addoli ar y cyd;

-ymweliad ysgol;

- defnyddio asiantaethau/ymwelwyr allanol i helpu i gyflwyno ABaCh.

-gweithio mewn grwp bychan

7. Medrau allweddol i'r disgyblion eu meithrin

❖ Gwranddo'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill.

❖ Mynegi eu barn a'u syniadau a chymryd rhan mewn trafodaeth.

❖ Ysgrifennu am eu teimladau a'u hemosiynau.

❖ Trwy ddarllen, uniaethu eu teimladau neu eu sefyllfa hwy eu hunain gyda phlant a phobl eraill.

❖ Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth ohonynt hunain, gan gynnwys: -cyfeirlyfrau;

-cerddoriaeth;

-papurau newydd;

-rhaglenni teledu a fideo.

a) Mynediad a Chyfleoedd Cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol, yn adlewyrchu cydraddoldeb pob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i raglen astudio'r maes. Manteisir ar bob cyfle i ddarparu'n wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

b) Datblygu Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**. Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn ymwneud ag ystod eang o faterion personol a chymdeithasol sy'n gofyn iddynt wneud penderfyniadau a gweithredu trwy gynllunio ymatebion personol, datblygu dealltwriaeth, a myfyrio ynghylch deilliannau o safbwynt hwy eu hunain ac eraill.

c) Datblygu Cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**. Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy ymchwilio, gwrando ar eraill, trafod mewn grwpiau bach a mawr, arhannu gwybodaeth a syniadau â chyfoedion am amrywiaeth eang o faterion personol, cymdeithasol a chymunedol.

ch) Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu cymhwysiad pwrpasol o sgiliau TGCh a'u dealltwriaeth o fanteision a pheryglon defnyddio technolegau cyfredol a'r rhai sy'n datblygu.

Byddant yn deall pwysigrwydd mabwysiadu arferion diogel a chyfreithiol sy'n lleihau'r peryglon i'w hunain ac i eraill pan fyddant yn defnyddio cyfathrebudigidol, ynghyd â gwerthfawrogi'r angen i barchu eraill.

d) Datblygu Rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth **fathemategol, cyfrifo, a dehongli** a

chyflwyno casgliadau. Mewn addysg bersonol a chymdeithasol, bydd y dysgwyr yn casglu, yn dethol ac yn dadansoddi gwybodaeth rifol er mwyn datblygu tystiolaeth.

8. Mae'r themâu a nodir yn y fframwaith ABCh fel a ganlyn:

- ❖ Dinasyddiaeth weithgar
- ❖ Iechyd a lles emosiynol
- ❖ Datblygiad moesol ac ysbrydol
- ❖ Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- ❖ Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r themâu hyn yn feysydd datblygu sydd ar wahân i'w gilydd, ond eu bod yn hytrach yn themâu y ceir cyswllt anorfod rhyngddynt.

6. Rheoli a chyd-drefnu ABCh

Y Pennaeth yw Cydlynnydd ABCh yr ysgol a thros weinyddiad Cynllun lach yr Ysgol. Bydd Cydlynnydd y Cyfnod Sylfaen Mrs Sioned Parry yn gyfrifol am weinyddiad a chyd-drefnu 'r polisi hwn yn y Cyfnod Sylfaen.

7. Cydnabod cyraeddiadau'r dysgwyr

Cedwir Portffolio o waith AbaCH disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol fel tystiolaeth o'r hyn a wneir mewn gwersi. Mae elfen gryf o waith trafod ac amser cylch yn perthyn i'r gwaith AbaCH, a weithiau dim ond tystiolaeth ffotograff a geir fel cofnod o'r gwaith. Rhoddir adroddiad i'r rhieni yn ysgrifenedig bob diwedd blwyddyn addysgol, cyfeirir at nodweddion personol y plentyn yn yr adroddiad. Gall athro/athrawes ddefnyddio sesiynnau AbaCH fel tystiolaeth yma i adrodd yn ôl i rieni ar ddatblygiad personol y plentyn.

10. Datblygu proffesiynol parhaus

- Y Cydlynnydd (Y Pennaeth) fydd yn mynychu pob cwrs hyfforddiant yn y maes. Yn ei habsenoldeb bydd Cydlynnydd Y Cyfnod Sylfaen Mrs Sioned Parry yn mynychu yn ei lle.
- Lledaenir gwybodaeth berthnasol i aelodau eraill y staff mewn cyfarfodydd HMS ysgol ganolog ac mewn cyfarfodydd staff wythnosol.

- Gwneir awdit blynyddol o addasrwydd adnoddau a buddsoddir mewn adnoddau diweddar yn ôl y gofyn. Clustnodir anghenion cwricwlaidd yn flynyddol yn y CDY
- Rhennir arferion effeithiol ymysg staff yn barhaus.

11. Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi –
adolygir pob tair blynedd

Dyddiad Mabwysiadwyd gan y C Llywodraethwyr. Mawrth 9fed 2010

Arwyddwyd gan y Cadeirydd _____

Dyddiad Chwefror 7fed 2013

